# Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu

## Sector Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd – 7 Chwefror 2024

## Holi ac Ateb

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar 'Sector Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd'. Rydym wedi grwpio'r cwestiynau hyn yn ôl thema, weithiau mae un ateb ar gyfer nifer o gwestiynau.

Gallwch wylio'r gweminar a gweld y sleidiau yma: [Ailgylchu yn y Gweithle – Gweminarau (wrapcymru.org.uk)]

Cod Ymarfer: [Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU]

Mae adnoddau ar gael yma i'ch helpu i baratoi: [Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)]

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| A allaf barhau i ddefnyddio fy mag glas presennol ar gyfer ailgylchu masnachol? | Bydd angen i chi siarad â'ch casglwr gwastraff i ddarganfod sut yr hoffent i chi gyflwyno eich ailgylchu. |
| A allaf barhau i ddefnyddio fy mag gwyn presennol ar gyfer ailgylchu? | |
| Pa feintiau bagiau leinio sydd ar gael? A allaf ddefnyddio sachau du untro fel leinin ar gyfer ein bin gwastraff bwyd? | |
| Beth yw enw'r ddeddfwriaeth newydd? | Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.<br><br>https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2023/1290/contents/made |
| Rydym wedi cael cynnig y cyfle i sefydlu gweithgor ar gyfer y rheoliadau newydd drwy UKH Cymru. A fyddai gennych ddiddordeb mewn estyn allan i'r grŵp hwn? | Bydd WRAP yn rhan o'r gweithgor. |
| **Gorfodaeth** | |
| A oes unrhyw ofynion penodol ar gyfer biniau gwastraff bwyd mewn ceginau? Er enghraifft, lliwiau penodol, caeadau, swyddogaethau pedal, ac ati. | Nid oes unrhyw ofyniad penodol ynghylch lliw biniau, ond mae'r ASB wedi cyhoeddi gwybodaeth am sut y dylid storio gwastraff bwyd: https://www.food.gov.uk/business-guidance/food-and-cooking-oil-waste#how-rubbish-is-stored |
| **Treulio Anaerobig** | |
| Ble mae'r safleoedd treulio anaerobig yng Nghymru lle bydd y gwastraff bwyd yn mynd? | Mae nifer o safleoedd treulio anaerobig ledled Cymru. Siaradwch â'ch casglwr gwastraff i gadarnhau lleoliad eich gwastraff bwyd neu |

<table>
<tr><td></td><td>edrychwch ar eich nodiadau trosglwyddo gwastraff.<br><br>Gallwch hefyd weld map o’r holl weithfeydd treulio anaerobig yma: https://www.biogas-info.co.uk/resources/biogas-map/</td></tr>
<tr><td>Ôl-gludo</td><td></td></tr>
<tr><td>Beth os caiff deunyddiau eu hôl-gludo i leoliad canolog i'w prosesu?</td><td>Os yw sefydliad yn bwriadu ôl-gludo gwastraff wedi'i dargedu gan ddefnyddio eu fflyd o gerbydau eu hunain i'w cyfleusterau eu hunain, ac felly byth gyflwyno eu gwastraff i'w gasglu, mae hynny'n dderbyniol. Ni fyddai angen biniau gwastraff bwyd ar wahân arnynt. Fodd bynnag, efallai y bydd angen iddynt gyflenwi biniau bwyd mewnol ar gyfer eu staff, ymwelwyr a chontractwyr os yw'r gweithle yn cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd yr wythnos.<br><br>Bydd angen gwahanu’r gwastraff hwnnw o hyd ar yr adeg y caiff ei gyflwyno i’w gasglu yn y pen draw.</td></tr>
<tr><td>Biniau</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae cynwysyddion yn bethau drud. A yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gymorth ar gyfer y gost ymlaen llaw i gynorthwyo â gwahanu?</td><td rowspan="5">Nid oes unrhyw gymorth ariannol i gynorthwyo sefydliadau i fodloni gofynion y rheoliadau newydd.<br><br>Bydd casglwyr gwastraff yn darparu biniau allanol ar gyfer eich ailgylchu a gwastraff.</td></tr>
<tr><td>A fydd biniau’n cael eu darparu gan ein hawdurdod lleol, neu a fydd angen i ni eu prynu ein hunain?</td></tr>
<tr><td>Sut a phryd y bydd busnesau lletygarwch yn cael biniau sy’n caniatáu gwahanu? A oes disgwyl i fusnesau ddod o hyd i'r rhain eu hunain neu a fydd dosbarthiad?</td></tr>
<tr><td>A fydd cadis bach yn cael eu darparu am ddim i'w hailgylchu cyn eu trosglwyddo i sgipiau mwy?</td></tr>
<tr><td>A oes unrhyw wybodaeth am finiau sy'n cael eu darparu ar gyfer busnesau?</td></tr>
<tr><td>Cyfathrebu</td><td></td></tr>
<tr><td>A allwch chi rannu unrhyw astudiaethau achos ar gyfer busnesau bwyd-wrth-fynd?</td><td>Byddwn yn creu astudiaethau achos yn cyflwyno enghreifftiau o sut mae gwahanol sectorau wedi rhoi’r rheoliadau newydd ar waith.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd nifer o astudiaethau achos ar ei gwefan.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| A oes modd golygu'r posteri a'r ffeiliau dylunio labeli yn llawn? | Er bod y rhestrau deunydd yn sefydlog, gallwch ychwanegu eich logo at faner waelod y posteri templed.<br>Os na allwch wneud newidiadau i'r templedi sydd eu hangen yn eich barn chi, cysylltwch â ni i gael gwybod sut y gallwn helpu. |
| Allwch chi rannu'r ddolen i'r posteri os gwelwch yn dda? | Gallwch weld y posteri, ynghyd â chanllawiau a phecyn adnoddau, yma: [https://busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk/adnoddau](https://busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk/adnoddau) |
| **Halogiad** | |
| Sut dylen ni ddelio â chardbord gydag olion bwyd arno? Ydyn ni'n rhoi'r rhain yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu? | Dylid rhoi cardbord a phapur wedi'i halogi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.<br><br>Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi cyngor ar ddeunyddiau pacio wedi'u halogi. Gall eich casglwr gwastraff eich cynghori ar hyn hefyd.<br><br>Mae paragraffau 7.7 a 7.37 o'r Cod Ymarfer yn cynnwys rhagor o wybodaeth am leihau halogiad. |
| A oes angen i ni lanhau cynwysyddion bwyd a diod cyn iddynt gael eu casglu i gael eu hailgylchu? | |
| A ddylem ni roi eitemau cardbord fel blychau pizza sydd â gwastraff bwyd arnynt gyda chardbord neu a ddylid eu rhoi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu? | |
| **Cost** | |
| A yw'n debygol y bydd cost ariannol i fusnesau wrth gydymffurfio â'r rheoliadau newydd? | Nid oes unrhyw gymorth ariannol i fusnesau dan rwymedigaeth gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol newydd.<br><br>Dylai busnesau weithio gyda'u casglwr gwastraff i sefydlu'r casgliadau mwyaf priodol ar gyfer eu gofod a'u meintiau o wastraff.<br><br>Bydd y rheoliadau hyn yn cefnogi gweithleoedd dros amser i symud i ffwrdd o sefyllfa lle mae gwaredu gwastraff yn gost sylweddol, i sefyllfa lle mae'r deunydd gwastraff hwnnw'n cael ei ddal yn effeithiol yn lle hynny a'i ddychwelyd i'n heconomi fel nwyddau pwysig. |
| A oes unrhyw gymorth ariannol i fusnesau i'w galluogi i roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith? Nid oes gan y rhan fwyaf o fusnesau le i allu storio gwastraff ar wahân, felly bydd angen iddynt brynu cyfleusterau storio ac o bosibl ofyn am gasgliadau amlach. | |
| Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gorfodi'r ddeddfwriaeth newydd, dylent ddarparu'r biniau i fusnesau neu o leiaf yr awdurdodau lleol. Rwy'n gweithio i elusen/mudiad lletygarwch ac mae prynu biniau newydd i gadw at y ddeddfwriaeth yn mynd i fod yn gostus. A fydd unrhyw fath o grant i wneud cais amdano i helpu gyda'r gost hon? | |
| **Cwpanau** | |

| | |
|---|---|
| A allwch roi rhywfaint o eglurder ar waredu cwpanau coffi os gwelwch yn dda? Ai ffrwd wastraff newydd yw hon? | O dan y rheoliadau newydd, bellach gellir casglu cwpanau ochr yn ochr â metelau a phlastigau fel gofyniad sylfaenol. Efallai y bydd eich casglwr gwastraff yn gofyn iddynt gael eu casglu ar wahân er mwyn hwyluso prosesu'r deunydd.<br>O dan reoliadau newydd ledled y Deyrnas Unedig, mae cynllun dychwelyd cwpanau i fod i ddechrau yn 2025.<br><br>Ni fydd gwrthdaro rhwng gofynion y cynllun dychwelyd cwpanau, gan y bydd bin ar wahân ar gyfer cwpanau (yn unol â'r cynllun dychwelyd) hefyd yn cydymffurfio â gofynion gwahanu yn y Gweithle ar gyfer Cymru.<br><br>Cliciwch yma am fwy o wybodaeth: Cynllun newydd i ddychwelyd cynhwysyddion diodydd erbyn 2025 yn helpu Cymru i wella ei chyfraddau ailgylchu ymhellach \| LLYW.CYMRU |
| A fydd cwpanau coffi / cwpanau papur hefyd yn ffrwd wastraff orfodol? Rwyf wedi canfod bod y rhan fwyaf o weithredwyr gwastraff yn gofyn bod y rhain yn cael eu casglu un ffrwd, ond mae'r canllawiau'n nodi efallai y cânt eu hychwanegu at fetelau, plastigau a chartonau? | |
| Bydd y National Cup Recycling Scheme yn helpu gydag ailgylchu eich cwpanau tafladwy. | |
| Cyfeiriwch fynychwyr at y National Cup Recycling Scheme am ragor o gyngor a gwybodaeth am ailgylchu cwpanau. | |
| Sut mae busnesau yn cydymffurfio â chynllun gorfodol ar gyfer dychwelyd cwpanau os gellir eu rhoi mewn cartonau yng Nghymru? A fydd angen i ni ganfod a gosod biniau ar wahân ar gyfer cwpanau coffi yn 2025? | |
| **Gorfodi a gweithredu** | |
| A oes arweinydd neu bwynt cyswllt o fewn CNC y gall Awdurdodau Lleol gysylltu ag ef ynghylch canllawiau/cyngor gorfodi, ac ati? | Emma Killian<br>Emma.Killian@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br>Ac ymholiadau cyffredinol i<br>diwygiogwastraff@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| Os yw biniau wedi'u halogi, ni fyddant yn cael eu casglu. Felly, y casglwr gwastraff yw'r sawl sy'n gorfodi ac mae'r atebolrwydd yn disgyn arnaf i fel perchennog y busnes, a dydw i ddim yn meddwl fod hynny'n deg. | Bydd angen sgwrs rhwng y cynhyrchwr gwastraff a'r casglwr i gytuno ar lefelau derbyniol o halogiad a ffyrdd o sicrhau bod halogiad yn gyfyngedig. |
| A fydd CNC yn ymweld â safleoedd? | Bydd, yn y pen draw bydd CNC yn ymweld â safleoedd y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau newydd. |
| Os nad yw gwesteion fy ngwesty yn ailgylchu'n gywir, pwy fydd yn talu'r ddirwy? Os mai fi fydd fel perchennog y busnes, a yw hyn yn deg? | Bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi cymryd pob cam cyfrifol i weithredu'r newidiadau gofynnol o dan y rheoliadau newydd. Bydd CNC yn cynnig cymorth ac arweiniad i ddechrau i helpu busnesau.<br><br>Cyfeiriwch at baragraffau 7.12 a 7.13 o'r Cod Ymarfer am fanylion ar gyfrifoldeb. |
| A ydym ni'n gwybod beth yw'r dirwyon am unrhyw ddiffyg cydymffurfio? Er enghraifft, beth fyddai'r ddirwy i rywun yn rhoi croen banana mewn can metel neu fag plastig a fyddai'n halogi'r llif gwastraff hwnnw? | |

| | |
|---|---|
| Mae'r amserlen ar gyfer prynu biniau a sefydlu gwasanaethau casglu gwastraff newydd yn heriol ar gyfer Ebrill 2024. A oes unrhyw ystyriaeth / hyblygrwydd i weithredu'r newidiadau i gwrdd â'r rheoliadau newydd? | Os bydd diffyg cydymffurfio, gall CNC roi cyngor ac arweiniad fel ymateb cyntaf lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ar gyfer digwyddiadau mwy difrifol neu ddiffyg cydymffurfio parhaus, mae gan CNC bwerau i fabwysiadu ymagwedd fwy cadarn pan fo angen, gan gynnwys sancsiynau sifil (cosbau ariannol sefydlog ac amrywiol) ac achosion troseddol.<br>Bydd y cosbau ariannol penodedig naill ai'n £300 neu £500 yn dibynnu ar y toriad. |
| Fel busnes bach, a all rhywun gael trwydded gwastraff gan CNC a chludo ein gwastraff ein hunain i ddarparwr casglu masnachol? | Ydy, mae hyn yn bosibl.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru fel cludwr gwastraff, cliciwch yma: Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestru neu adnewyddu fel cludwr, brocer neu ddeliwr gwastraff |
| Pwy sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth hon? | Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff rheoleiddio ar gyfer y gofynion gwahanu a'r gwaharddiadau gwaredu, ac mae'r awdurdod lleol yn rheoleiddio'r gwaharddiad ar waredu i garthffosydd. |
| **Gwastraff bwyd** | |
| A allwch chi egluro'r terfyn gwastraff bwyd o 5kg eto? | Rhaid i unrhyw eiddo annomestig sy'n cynhyrchu 5 cilogram neu fwy o wastraff bwyd mewn unrhyw wythnos (fel cyfnod o saith diwrnod olynol) wahanu hwn oddi wrth bob ffrwd gwastraff arall a'i gyflwyno i'w ailgylchu ar wahân.<br><br>Cyfeiriwch at baragraff 7.24 yn y Cod Ymarfer. |
| Os ydym yn cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd mewn un cyfnod o saith diwrnod, a yw un casgliad yr wythnos yn iawn, neu a oes angen i ni drefnu casgliad ychwanegol bob wythnos? | |
| A oes angen biniau gwastraff bwyd arnom ar gyrsiau golff? Mae gennym dri chwrs ac rydym yn debygol o gynhyrchu llai na'r trothwy 5kg. Os bydd angen i ni ddarparu biniau gwastraff bwyd ar gyrsiau golff, bydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol ac o bosibl yn cynyddu gweithgaredd fermin. | Os oes gennych finiau ar y cwrs golff ar hyn o bryd, bydd angen eu newid i gasglu'r deunyddiau ar wahân, gan gynnwys gwastraff bwyd. |
| A gawn ni wneud 'compostio poeth' i'n gwastraff gardd ein hunain i leihau faint o wastraff sydd i'w gasglu? | Mae technolegau ar gael i 'gompostio poeth', ond byddai angen i chi wneud eich ymchwil marchnad eich hun. |
| Fel arfer byddaf yn compostio gwaddodion coffi a bagiau te.<br>A yw'n iawn rhoi gwaddodion coffi i unrhyw un sydd eu heisiau? | Os yw'r gwaddodion coffi yn cael eu rhoi fel sgil-gynnyrch ac nad ydynt erioed wedi'u taflu na'u rhoi yn y gadwyn wastraff, byddai hynny'n iawn.<br><br>Mae'n bosibl y byddwch yn gallu compostio neu gynnal treulio anaerobig ar gyfer eich gwastraff bwyd eich hun ar eich safle ar yr amod eich bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Trwyddedu |

| | |
|---|---|
| | Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ac unrhyw eithriadau perthnasol, a gofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, ac unrhyw reoliadau perthnasol eraill. |
| Mae gwaharddiad ar bob gwastraff bwyd rhag mynd i garthffosydd. A fyddai hyn yn cynnwys hylifau fel cawl, llaeth, ac ati? | Bydd hyn yn dibynnu ar faint o wastraff hylifol y byddwch yn ei gynhyrchu.<br><br>Gwiriwch gyda Dŵr Cymru neu Hafren Dyfrdwy oherwydd efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i 'archeb elifiant masnach'. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaharddiad ar anfon gwastraff bwyd i garthffosydd a'i ddiffiniad o fwydydd hylifol, nad yw at y diben hwn yn cynnwys "diod".<br>Gweler adran 4.13 o'r Cod Ymarfer am ragor o wybodaeth am y diffiniadau. |
| **Deunyddiau** | |
| O ran busnesau mynd â chŵn am dro a defnyddio biniau ar gyfer gwastraff cŵn, a fyddai disgwyl inni ddidoli'r gwastraff hwnnw? | Na |
| Pa ffrwd gwastraff sydd fwyaf priodol ar gyfer ffyn troi diodydd / cyllyll / ffyrc / llwyau pren? | Mae hyn yn dibynnu ar eich contractwr. Ni fyddai safleoedd treulio anaerobig am i hyn gael ei roi drwy'r broses treulio anaerobig. |
| A ddylid rhoi hancesi papur wedi'u halogi yn y cynhwysydd ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu? | Dylid rhoi cardbord a phapur wedi'i halogi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Cyfeiriwch at Atodiad 3 o'r Cod Ymarfer am y rhestr lawn o ddeunyddiau a sut y dylid eu gwaredu. |
| Ar hyn o bryd mae gennym gasgliadau braster ac olew yn eu lle, ond hefyd atalyddion braster gydag atebion torri i lawr. A yw hyn yn dal yn gyfreithlon? | Mae'r cod ymarfer yn dweud:<br><br>7.34 Gallai gosod trapiau saim helpu i atal saim a gwastraff bwyd tebyg rhag cael ei ollwng yn ddamweiniol i'r garthffos. Mae Adran 111 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ganiatáu i unrhyw ddeunydd, a allai ymyrryd â llif rhydd cynnwys y garthffos neu'r draen neu effeithio'n niweidiol ar driniaeth a gwarediad ei gynnwys, basio i lawr unrhyw ddraen neu garthffos sy'n cysylltu â charthffos gyhoeddus. Gallai hyn gynnwys brasterau, olewau a saim.<br><br>Mae cael y rheiny ar waith yn gyfreithlon. |
| Beth yw'r pwynt mewn gwellt papur a deunydd pacio cardbord, os na ellir eu | Dim ond cardbord glân a sych y dylid ei roi yn eich bin er mwyn i gardbord a phapur gael ei ailgylchu. |

| | |
|---|---|
| hailgylchu a dylid eu rhoi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu? | Gellid ailgylchu gwellt papur ac maent wedi disodli gwellt plastig untro. |
| Mae'n ymddangos bod rhywfaint o ddryswch ynghylch papur glas. A ddylai hwn gael ei ailgylchu gyda phapur neu ei roi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu? Rydym yn delio â thua 10 o wahanol gasglwyr gwastraff ledled Cymru sydd i gyd yn dweud wrthym am wahanol ffyrdd o gasglu'r eitem hon. | Mae'r Cod Ymarfer, Atodiad 3, yn nodi nad yw tywelion papur wedi'u cynnwys yn y rhestr o bapur i'w ailgylchu. |
| Ydy 'tecstilau heb eu gwerthu' yn cynnwys tecstilau wedi'u defnyddio fel hen wisgoedd? | Na, ymdrinnir â'r pwynt hwn ym mharagraff 4.15 o'r Cod Ymarfer. Mae "Heb ei werthu" yn golygu cynnyrch defnyddiwr heb ei ddefnyddio, mewn ffatri, eiddo manwerthu, cyfanwerthwr, warws neu eiddo arall, nad yw wedi'i werthu i ddefnyddiwr neu sydd wedi'i werthu a'i ddychwelyd gan ddefnyddiwr. |
| **Eiddo dan rwymedigaeth** | |
| A all elusen, er enghraifft canolfan gymunedol sy'n llogi'r eiddo, roi'r cyfrifoldeb am ailgylchu ar y bobl sy'n llogi'r eiddo? | Gall Adran 5 o'r Cod Ymarfer helpu meddianwyr mangreoedd annomestig i benderfynu a ydynt wedi'u cynnwys yn y rheoliadau. |
| A yw'r cwestiwn uchod hefyd yn berthnasol i lety hunanarlwyo ar osod os gwelwch yn dda? | |
| A fydd gwastraff na ellir ei ailgylchu yn ddiangen mwyach os yw popeth am gael ei ailgylchu? | Bydd deunyddiau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr o ddeunyddiau penodedig y bydd angen eu rhoi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu o hyd. |
| **Gwahanu** | |
| Mewn gwestai, a oes disgwyl i ni fynd drwy'r biniau a gwahanu'r gwastraff gan ystyried y gallent gynnwys hylifau corfforol ymhlith y gwastraff hwn? | Ni fydd angen i chi ddidoli bagiau o ddeunyddiau ailgylchadwy i sicrhau nad ydynt wedi'u halogi.<br><br>Bydd angen i chi sicrhau bod y biniau ailgylchu wedi'u labelu'n glir, bod y system ailgylchu sydd ar waith yn cael ei chyfleu i staff ac ymwelwyr a bod digon o gynwysyddion yn cael eu darparu i'ch staff a'ch gwesteion eu defnyddio'n gywir.<br><br>Fe'ch cynghorir i fonitro effeithiolrwydd eich system ailgylchu a gwneud unrhyw newid sydd ei angen i sicrhau ei bod yn gweithio'n dda.<br><br>Mae'r Cod Ymarfer (paragraff 7.37) yn cynnwys mwy o fanylion am y camau y cynghorir chi i'w cymryd mewn perthynas â halogiad. |
| Os ydym yn darparu bagiau te i westeion yn eu hystafelloedd gwely, a oes rhaid i ni ddarparu biniau gwastraff bwyd ar eu cyfer? Gallai hyn fod yn bla / mater iechyd a diogelwch. | |
| Rwyf yn cadw gwesty. Sut alla i fod yn atebol am ymddygiad gwesteion? | |
| Rwyf yn cadw gwesty a fi yw'r unig aelod o staff. A yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y risg i iechyd i mi wrth imi geisio sicrhau bod gwastraff yn cael ei ddidoli'n briodol? | |

<table>
<tr><td>Fe ddwedoch nad oes disgwyl inni fynd drwy finiau ystafelloedd gwely mewn gwestai, ac ati, ond os oes eitemau y gellir eu hailgylchu yn y biniau hynny a’u bod yn mynd i finiau ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu, a allai hyn arwain at ddirwy? Yn amlwg, os yw’n hawdd mynd drwy’r biniau yna bydd hyn yn cael ei wneud, ond bydd rhai cwsmeriaid yn rhoi condomau, ac ati yn y biniau ac rwy’n meddwl am iechyd fy staff.</td><td rowspan="3">Cynghorir gwestai i gael arwydd ar y ddesg yn ystafell pob ymwelydd yn gofyn iddynt osod unrhyw eitemau ailgylchadwy ar wahân, wrth ochr y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Bydd hyn yn lleihau cymysgu gwastraff a deunyddiau ailgylchadwy o'r cychwyn cyntaf ac yn ei gwneud yn haws i'r gwesty gyflwyno ffrydiau gwastraff ar wahân i'w casglu. Yna caiff yr eitemau hyn eu casglu a'u cadw ar wahân gan y staff glanhau.<br><br>Byddai cael biniau i’w hailgylchu mewn mannau cymunedol y gall gwesteion eu cyrraedd yn ateb, yn hytrach na chael nifer o finiau ym mhob ystafell.</td></tr>
<tr><td>Os caf fy anafu neu os caf haint bacteriol o geisio didoli sbwriel yn gywir, pwy sy'n atebol am fy iechyd?</td></tr>
<tr><td>Nid yw pedwar bin mewn ystafell wely ar gyfer gwesteion yn ymarferol iawn. A fyddai gosod gorsafoedd ailgylchu mewn mannau cymunedol, fel cynteddau lifftiau yn ddigon? Efallai gyda negeseuon mewn ystafelloedd gwesteion yn annog gwesteion i fynd â'u heitemau ailgylchadwy o'u hystafell i'r gorsafoedd hyn?</td></tr>
</table>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at WalesRecycles@wrap.org.uk neu CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk.